**<u>YN ACHOS RHEOLIADAU (YMDDYGIAD) YR HEDDLU 2020</u>**

**<u>YN ACHOS CYN-RINGYLL YR HEDDLU 5703 JAMES FLORENCE</u>**

**Gwrandawiad Camymddwyn Carlam ar 3 Mawrth 2026**

**gan**

**Y Prif Gwnstabl Jeremy Vaughan**

**Penderfyniad ar Ganlyniad**

Mae cyn-Ringyll yr Heddlu 5703 James Florence wedi ymddiswyddo o'i rôl fel swyddog yr heddlu. Felly, nid yw'n gwasanaethu fel swyddog yr heddlu mwyach. Felly, mae a wnelo'r Gwrandawiad Camymddwyn Carlam hwn, a gynhelir o dan Ran 5 o Reoliadau'r Heddlu (Ymddygiad) 2020, â chyn-swyddog a chyfarwyddaf fod y Rheoliadau yn cael eu diwygio i'r graddau sy'n ofynnol ar gyfer cyn-swyddog.

Nid yw cyn-Ringyll yr Heddlu Florence yn bresennol yn y gwrandawiad heddiw ond mae'n cael ei gynrychioli gan ei Gynrychiolydd o Ffederasiwn yr Heddlu, Mr Danny Ahearn.

Nid oes anghydfod ynghylch y ffeithiau.

Ar 11 Medi 2025, pan oedd yn gwasanaethu fel swyddog yr heddlu, gwnaeth cyn-Ringyll yr Heddlu Florence wiriadau ar systemau cyfrifiadurol yr heddlu mewn perthynas â dau aelod o'r cyhoedd ac mewn perthynas â chyfeiriad eiddo. Ar bob achlysur nid oedd y gwiriadau wedi'u hawdurdodi ac nid oeddent at ddiben heddlu cyfreithlon.

O ganlyniad i'w weithredoedd anghyfreithlon cafodd cyn-Ringyll yr Heddlu Florence ei arestio ar 26 Tachwedd 2025 gan swyddogion o Uned Atal Llygredigaeth Heddlu De Cymru mewn perthynas â throseddau yn groes i adran 170 o Ddeddf Diogelu Data 2018 ac adran 1 (1) a (3) o Ddeddf Camddefnyddio Cyfrifiaduron 1990. Yn ystod cyfweliad cyfaddefodd cyn-Ringyll yr Heddlu Florence yn llawn i wneud y gwiriadau. Ymddiswyddodd cyn-Ringyll yr Heddlu Florence o'i rôl fel swyddog heddlu yn fuan ar ôl hynny.

Ar 16 Ionawr 2026 cafodd cyn-Ringyll yr Heddlu Florence rybudd am drosedd o dan adran 1 (1) a (3) o Ddeddf Camddefnyddio Cyfrifiaduron 1990 am ei fod, ar 11 Medi 2025 ym Mhen-y-bont ar Ogwr, wedi gwneud i gyfrifiadur gyflawni swyddogaeth gyda'r bwriad o gael mynediad heb awdurdod at raglen neu ddata a ddelir ar gyfrifiadur, neu alluogi mynediad o'r fath.

Mae'r Awdurdod Priodol yn honni bod gweithredoedd addefedig cyn-Ringyll yr Heddlu Florence yn torri'r Safonau Ymddygiad Proffesiynol mewn perthynas â'r canlynol:

> Safon 1 – Gonestrwydd ac Uniondeb (Uniondeb yn unig): "*Mae swyddogion yr heddlu yn onest, yn gweithredu gydag uniondeb ac nid ydynt yn peryglu nac yn camddefnyddio eu swydd";*
>
> Safon 7 – Cyfrinachedd - "*Bydd Swyddogion yr Heddlu yn trin gwybodaeth â pharch ac ni fyddant yn ei chyrchu na'i datgelu oni fydd angen gwneud hynny i gyflawni eu dyletswyddau'n briodo*l"; *a*
>
> Safon 9: Ymddygiad Annheilwng: "*Mae Swyddogion yr Heddlu yn ymddwyn mewn ffordd nad yw'n difrïo Gwasanaeth yr Heddlu nac yn tanseilio hyder y cyhoedd ynddo, p'un a fyddant ar ddyletswydd ai peidio. Mae Swyddogion yr Heddlu yn rhoi gwybod am unrhyw gamau a gymerir yn eu herbyn am drosedd, unrhyw amodau a osodir arnynt gan lys neu unrhyw hysbysiad cosb a gyflwynir iddynt.*

Safbwynt yr Awdurdod Priodol yw bod ymddygiad Rhingyll yr Heddlu Florence, yn unigol neu ar y cyd, yn gyfystyr â chamymddwyn difrifol, hynny yw, bod yr achosion o dorri'r Safonau Ymddygiad Proffesiynol mor ddifrifol fel eu bod yn cyfiawnhau ei ddiswyddo.

Yn ei ymateb ysgrifenedig yn unol â Rheoliad 54, mae cyn-Ringyll yr Heddlu Florence wedi cyfaddef ei fod wedi torri'r Safonau Ymddygiad Proffesiynol fel yr honnir a bod ei ymddygiad yn gyfystyr â chamymddwyn difrifol.

Yn ôl pwysau tebygolrwydd, nid oes gennyf unrhyw amheuaeth bod yr honiadau yn gywir. Rwyf hefyd wedi fy modloni bod ymddygiad y cyn-swyddog, yn unigol neu ar y cyd, yn gyfystyr â chamymddwyn difrifol.

**Canlyniad**

Ar ôl dyfarnu achos o gamymddwyn difrifol, mae'n rhaid i mi gymryd camau disgyblu yn erbyn y cyn-swyddog ac nid oes gennyf unrhyw amheuaeth wrth wneud hynny. Yr unig gam disgyblu sydd ar gael i mi yw y byddai cyn-Ringyll yr Heddlu Florence wedi cael ei ddiswyddo pe na bai wedi peidio â bod yn aelod o heddlu. Nid awgrymwyd ar ran cyn-Ringyll yr Heddlu Florence fod unrhyw amgylchiadau eithriadol, a beth bynnag, nid wyf innau o'r farn bod unrhyw amgylchiadau o'r fath. Fy mhenderfyniad ar y Canlyniad yw fy mod wedi fy modloni y byddai cyn-Ringyll yr Heddlu Florence wedi cael ei ddiswyddo ar unwaith pe na bai wedi ymddiswyddo.

Wrth wneud y penderfyniad hwn, rwyf wedi rhoi ystyriaeth lawn i Ganllawiau'r Coleg Plismona ar Ganlyniadau mewn Achosion Camymddygiad yr Heddlu a fu'n sail i'm casgliad. Rwyf wedi profi difrifoldeb yr honiadau a diben gosod cosb, y mae'n rhaid i mi eu hystyried wrth wneud penderfyniad ar ganlyniad. Rwyf wedi rhoi sylw dyladwy i feiusrwydd, niwed, unrhyw ffactorau gwaethygol ac unrhyw ffactorau lliniarol fel y'u nodir yn y Canllawiau.

Wrth asesu difrifoldeb yr ymddygiad, rwy'n cydnabod po fwyaf beius yw'r ymddygiad dan sylw, y mwyaf difrifol yw'r ymddygiad a'r mwyaf difrifol fydd y canlyniad tebygol. Roedd y cyn-swyddog yn dal swydd yr oedd pobl yn ymddiried ynddi ac mae wedi torri'r ymddiriedaeth honno, ac mae hyn yn cynyddu lefel beiusrwydd. Mae'r ymddygiad yn fwriadol, ac mae hyn hefyd yn cynyddu lefel beiusrwydd. Mae'n gwbl annerbyniol i swyddogion yr heddlu, sy'n gyfrifol am orfodi'r gyfraith, dorri'r gyfraith eu hunain.

Mae'n un o ddisgwyliadau'r cyhoedd ac yn ofyniad cyfreithiol y dylai gwybodaeth a geir wrth ymgymryd â dyletswyddau plismona gael ei thrin yn gwbl gyfrinachol, ei diogelu'n briodol a'i defnyddio at ddibenion dilys yr heddlu. Nid yw rhesymau personol dros gael gafael ar wybodaeth gyfrinachol yr heddlu yn dderbyniol. Os bydd swyddog yn cael gafael ar wybodaeth bersonol nad yw ar gael i'r cyhoedd, dylai fod diben plismona penodol a phriodol

dros wneud hynny bob amser. Mae cael gafael ar wybodaeth gyfrinachol yr heddlu heb ddiben plismona dilys yn achos o gamddefnyddio rôl swyddog. Nid oes amheuaeth bod rhybudd troseddol cyn-Ringyll yr Heddlu Florence wedi cael effaith andwyol ar hyder y cyhoedd mewn plismona.

Mae'r niwed a achoswyd gan weithredoedd y cyn-swyddog yn niweidio enw da yr heddlu ac yn effeithio ar wasanaeth yr heddlu a hyder y cyhoedd yn y gwasanaeth yn gyffredinol. Un o'r ffactorau pwysicaf yw effaith yr achos o gamymddwyn ar statws ac enw da y proffesiwn cyfan. Rwyf wedi fy modloni bod cyn-Ringyll yr Heddlu Florence wedi niweidio'r enw da hwnnw.

Mae ffactorau gwaethygol yn ffactorau sy'n tueddu i waethygu amgylchiad yr achos, mewn perthynas â beiusrwydd y swyddog neu'r niwed a achoswyd. Rwyf wedi dyfarnu bod nifer o ffactorau gwaethygol yn gysylltiedig â'r achos hwn. Roedd yr ymddygiad yn rhagfwriadol ac yn fwriadol. Parhaodd cyn-Ringyll yr Heddlu Florence â'i ymddygiad ar ôl iddo sylweddoli ei fod yn amhriodol, neu y dylai fod wedi sylweddoli hynny. Mae ei weithredoedd wedi gwyro'n sylweddol oddi wrth y cyfarwyddiadau, y gorchmynion a pholisi a chyfraith gwlad yn gyffredinol. Yn fy marn i, mae'r rhain i gyd yn ffactorau gwaethygol.

Ffactorau lliniarol yw'r ffactorau hynny sy'n lleihau difrifoldeb y camymddwyn ac yn lleihau lefel gallu a niwed. Rwyf yn ymwybodol bod y cyn-swyddog wedi ymddiswyddo a thrwy wneud hynny, rwyf yn cydnabod iddo gymryd rhywfaint o gyfrifoldeb dros ei weithredoedd, o leiaf. Rhoddaf rywfaint o glod i gyn-Ringyll yr Heddlu Florence am hynny.

Rwyf wedi atgoffa fy hun o dri diben canlyniadau achosion camymddygiad yr heddlu, sef cynnal hyder y cyhoedd mewn plismona ac enw da gwasanaeth yr heddlu; cynnal safonau uchel o ran plismona ac atal camymddwyn; ac, yn olaf, diogelu'r cyhoedd.

Nid yw cyn-Ringyll yr Heddlu Florence wedi darparu unrhyw ffactorau lliniarol personol. Fodd bynnag, rwy'n cydnabod, oherwydd natur a diben achosion disgyblu, y bydd pwys ffactorau lliniarol personol o reidrwydd yn gyfyngedig, yn enwedig pan fydd camymddwyn difrifol wedi'i brofi, fel sydd wedi digwydd yn yr achos hwn.

O dan yr amgylchiadau, dim ond un canlyniad posibl y gallaf ei osod, ac nid oes gennyf unrhyw amheuaeth wrth wneud hynny. Felly, fy mhenderfyniad ar y Canlyniad yw fy mod wedi fy modloni bod y camymddwyn mor ddifrifol fel y byddai cyn-Ringyll yr Heddlu Florence wedi cael ei ddiswyddo ar unwaith pe na bai wedi ymddiswyddo. Ni ellir cyfiawnhau unrhyw ganlyniad arall ac nid oes unrhyw ganlyniad arall yn briodol.

Mae swyddogion yr heddlu, fel rhan o'u dyletswyddau, yn cael mynediad at wybodaeth breifat a phersonol iawn, a geir yn aml pan fydd aelod o'r cyhoedd yn teimlo fwyaf bregus. Drwy feddu ar y wybodaeth honno, mae'n rhaid gallu ymddiried yn llwyr yn swyddogion yr heddlu. Os na ellir ymddiried yn swyddogion yr heddlu yna, yn naturiol, mae aelodau'r cyhoedd yn llai tebygol o ddatgelu gwybodaeth a chefnogi ymchwiliadau'r heddlu. Mae'r mynediad hwnnw at wybodaeth yn rhoi swyddogion yr heddlu mewn safle o awdurdod, ac ni ddylent fyth gamddefnyddio'r awdurdod hwnnw.

Mae ymddygiad cyn-Ringyll yr Heddlu Florence yn gwbl annerbyniol. Ni chaiff y math hwn o ymddygiad ei dderbyn gan Heddlu De Cymru. Mae'r Safonau Ymddygiad Proffesiynol yn gymwys o'r eiliad y byddwch yn cerdded drwy'r drws. Dylai'r cyhoedd allu ymddiried yn llwyr yn swyddogion yr heddlu. Mae'r cyhoedd yn disgwyl i'n swyddogion arddel y safonau proffesiynol uchaf a methodd cyn-Ringyll yr Heddlu Florence â gwneud hynny.

Mae'r mwyafrif llethol o swyddogion yr Heddlu, staff a gwirfoddolwyr sy'n gweithio i Heddlu De Cymru yn ymddwyn yn berffaith ac yn gweithio'n ddiflino i ddiogelu'r cyhoedd. Mae'r nifer prin iawn ohonynt sy'n dewis mynd yn groes i'r safonau a ddisgwylir ohonynt yn tanseilio hyder y cyhoedd mewn plismona.

Yn unol â Rheoliadau (Ymddygiad) yr Heddlu 2020, caiff Canfyddiadau a Chanlyniad y gwrandawiad hwn eu hatgyfeirio at y Coleg Plismona er mwyn i gyn-Ringyll yr Heddlu 5703 James Florence gael ei roi ar Restr o Swyddogion a Staff Gwaharddedig yr Heddlu.